Trosglwyddo i'r Uwchradd

Ar ddiwedd blwyddyn 6 bydd plant Ysgol Ieuan Gwynedd yn symud i Ysgol y Gader. Mae'r ddwy ysgol yn cyd-weithio yn agos ac mae cyfleoedd i blant blwyddyn 6 fynd ar ymweliadau âg Ysgol y Gader yn Nhymor yr Haf.

Trosglwyddir canlyniadau ac asesiadau parhaus plant Blwyddyn 6 i'r Ysgol Uwchradd fel bod y broses asesu'n gallu parhau'n rhwydd.